

# Hanes Esther



## **ARWEINYDD**

Croeso i'r oedfa. Ar un adeg, roedd y gystadleuaeth Miss World yn boblogaidd iawn. Wel, mae yna gystadleuaeth debyg i Miss World yn y Beibl a byddwn yn sôn am hynny heddiw wrth i ni edrych ar hanes Esther.

Gyda llaw, Llyfr Esther yw un o'r unig ddau lyfr yn y Beibl sydd wedi'i enwi ar ôl menyw. Y llall yw Llyfr Ruth.

Gadewch i ni gynnau kannwyll fel arwydd bod yr oedfa'n dechrau.

*[Cynnau kannwyll]*

## **GWEDDI**

O Dduw, rydym yn diolch i Ti am ein creu ni. Rwyf wedi ein creu'n ddynion a gwagedd gyda rhinweddau arbennig yn perthyn i ni i gyd. Arwain ni yn yr oedfa wrth i ni edrych ar un o wragedd mawr y Beibl, sef Esther. Amen

**EMYN 787** 'Rho im yr hedd na wŷr y byd amdano'

## **ARWEINYDD**

Mae'r stori wedi'i lleoli ym Mhersia, lle mae llawer o Iddewon yn byw ar ôl cael eu cludo yno gan y Persiaid, oedd ag ymerodraeth enfawr yn llywodraethu rhan fawr o'r byd. Mae brenin Persia, yr holl-bwerus Ahasferus, yn dewis gwraig iddo'i hun trwy gynnal cystadleuaeth debyg i Miss World. Esther sy'n ennill ac yn dod yn frenhines. Iddewes yw Esther, ond mae hi'n gorfod cuddio hynny rhag pawb. Cafodd Esther ei magu gan ei hewythr Mordecai. Yna, un diwrnod, pan mae ei phobol i gyd mewn perygl o hil-laddiad, mae Mordecai'n dweud wrth Esther y bydd yn rhaid iddi fentro'i bywyd a datgelu i'r brenin ei bod hi'n Iddewes ac yna ceisio atal yr hil-laddiad. Mae Esther yn gwneud hyn, yn llwyddo i arbed ei phobol ac yn dod yn arwres i'w phobol am byth.



### **DARLLENIAD** Esther 4:11–16

Dyma ran o Lyfr Esther, lle mae Esther yn ystyried a ddylai fentro ei bywyd trwy ddweud wrth ei gŵr ei bod yn Iddewes.

**EMYN 320** 'lesu, lesu, rwyf ti'n ddigon'

### **ARWEINYDD**

Gadewch i ni wrando eto ar eiriau Esther wrth ei hewythr Mordecai ar ôl iddi benderfynu bod yn rhaid iddi fentro'i bywyd i arbed ei phobol:

'Dos i gasglu ynghyd yr holl Iddewon sy'n byw yn Susan, ac ymprydwch drosof; peidiwch â bwyta nac yfed, ddydd na nos, am dridiau, ac fe wnaif finnau a'm morynion yr un fath. Yna af at y brenin, er fy mod yn torri'r gyfraith; ac os trengaf, mi drengaf.'

### **MYFYRDOD**

Dyma dri phwynt am stori Esther.

## **1. Yr hyn mae Esther yn ei wneud i wrthsefyll ofn yw cael ffydd yn Nuw**

Roedd hi mewn sefyllfa enbydus a'i bywyd mewn perygl. Pan ry'n ni'n ofnus gallwn wneud un o ddau beth, sef wynebu'r ofn neu redeg i ffwrdd. Yr ateb gorau yw ei wynebu. Cydnabod yr ofn ac wedyn ei wynebu – a dyna mae Esther yn ei wneud. Wynebu'r ofn gyda help Duw. Mae'n bywydau ni i gyd yn gallu bod yn llawn ofn – ofn pobl, ofn sefyllfaoedd, ofn methiant, ofn marwolaeth, ofn byw ac yn blaen. Mae Esther yn gorchfygu ei hofnau trwy gael ffydd yn Nuw. A dyna sydd ei angen i ni ei wneud i guro ein hofnau ninnau.

## **2. Dywed Mordecai wrth Esther, 'Os byddi'n gwrthod siarad yn awr, daw ymward a chymorth i'r Iddewon o le arall, ond byddi di a thŷ dy dad yn trengi.'**

Os na wnawn ni weithio dros Dduw, bydd Duw yn dewis rhywun arall a ffordd arall i wneud ei waith.

## **3. Mae llawer wedi gweld tebygrwydd rhwng bywyd Esther a bywyd Iesu.**

Roedd y ddau'n byw bywyd tawel cyn cael eu taflu'n sydyn i sefyllfa beryglus. Fe ddangosodd y ddau ddewrder anhygoel yn wynebu dynion ar eu gwaethaf. Ac fe ddaeth y ddau drwyddi'n fuddugoliaethus, gydag Iesu'n cael ei atgyfodi ac Esther yn arbed ei phobol.

## **PWYNTIAU ERAILL POSIBL Y GELLID YMHELAETHU ARNYNT**

Esther yn troi at Dduw ac yn ymptydio a gweddio cyn wynebu'r sefyllfa beryglus.

Roedd holl fywyd Esther wedi arwain at y foment hon pan roedd yn rhaid iddi benderfynu a oedd yn mynd i geisio arbed ei phobol ai peidio.

Esther yn anghydfurfwraig – yn gwrthod cydymffurfio â ffordd y byd.

Gwneud y gorau o'n bywydau i wasanaethu Duw tra medrwn ni.

Ni chyfeirir at Dduw yn uniongyrchol unwaith trwy'r stori. Mae Duw yn y cefndir drwy gydol y stori.

Mae'r Iddewon yn dathlu Gŵyl y Purim bob blwyddyn i gofio hanes Esther.

**GWEDDI**

Diolch am stori Esther a'i neges i ni heddiw. Mae yna gymaint o ofnau yn ein bywydau ni i gyd, a'r rheiny'n aml yn ddigon i'n llethu. Arwain ni i bwysu arnat Ti ym mhob sefyllfa. Ti yw'r graig sydd yn ein cynnal, a dim ond gyda Thi y gallwn guro ein hofnau.

Arwain ni i weld pwysigrwydd troi atat Ti cyn mynd mas i wynebu'r byd a'i bethau. Dyna a wnâi Iesu, ac arwain ni i wneud yr un peth.

Sylweddolwn y fraint rydym wedi'i chael o gael ein galw'n blant i Ti, ac am y cyfle i weithio drosot. Sylweddolwn os na wnawn ni gyflawni ein dyletswyddau y byddi di'n dewis rhywun arall. Arwain ni i beidio â meddwl ein bod yn fwy pwysig nag yr ydym, a gweddiwn y byddi'n cael gwared ar bob hunan-falchder sydd ynom.

Arwain ni i weld mai un bywyd sydd gennym, a hwnnw'n gwibio heibio. Arwain ni i wneud ein gorau i weithio drosot Ti – heddiw a phob diwrnod am weddill ein bywydau. A hynny yn enw Iesu, yr hwn a'n dysgodd i weddio gyda'n gilydd fel hyn:

Ein Tad . . .

**EMYN 780** 'Nid wy'n gofyn bywyd moethus'

**Y FENDITH**

Duw, dyro i mi dangnefedd  
I dderbyn y pethau na allaf eu newid,  
Gwroldeb i newid yr hyn a allaf,  
A'r doethineb i wybod y gwahaniaeth.  
Amen

*[Diffodd y gannwyll i nodi diwedd yr oedfa]*

(G.LI.)